

Perthyn

Cylchgrawn Capel y Morfa ac Ebeneser Penparcau

Mawrth 2022

Rhif 304



“.. byddwch lawen a chedwch eich ffydd a'ch cred, a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i”

Gweddi dros Wcrain

Dduw Sanctaidd,
Daliwn ger dy fron bawb
sy'n byw yn agos at
wrthdaro a rhyfel:
a phawb sy'n byw yn
nghysgod bygythiad
rhyfel a thrais.
Cofiw'n yn arbennig bobl
Wcrain a Rwsia.

Gweddiwn am ddatrysiad
di-drais a heddychlon i'r gwrthdaro.

Rho inni galonnau croesawgar i gynnig lloches,
maddau inni ein casineb a'n gelyniaeth.

Tyn pobl yn ôl at y ddynoliaeth a roist i ni

ac at y cymod a'r iachad y rhoddaist dy fywyd drostynt.

Nertha ni i weithio gyda thi i adeiladu cyfiawnder a heddwch,
cymod ac iachad,

yn ein calonnau a'n cartrefi,

yn ein strydoedd ac ymhob cymuned,

cymdogaeth a chenedl.

Bendithia bawb sy'n byw dros heddwch a lles eraill

a boed i'w gwasanaeth ddwyn ffrwyth.

Yn enw Crist. Amen.



Inderjit Bhogal, Llywydd Anrhydeddus,
The Fellowship of Reconciliation



Gair gan Eifion

Ym mhlwyf Llannor roedd Pentreuchaf er fues i ‘rioed yn ymwybodol o hynny. ‘Roedd cysgod anghydfurfiaeth yn drwm ar yr ardal ac etifeddiaeth Lloyd George wedi rhoi bod i fath o eglwys oedd yn ddim byd mwy na enwad arall.

Yn hanesyddol ‘roedd eglwys Llannor wedi gwneud ei marc ar fwy nag un achlysur ond dim yn fwy nag ym merw blynyddoedd y Diwygiad Methodistaidd. Bryd hynny Y Parch John Owen oedd y rheithor a’i wrthwynebiad i’r mudiad yn un ffyrnig o ymosodol ar adegau.

Beth bynnag am hynny, os nad oedd trefniadaeth yr Eglwys yng Nghymru yn gyfarwydd, mi ‘roedd y ‘Person’. Bedyddwraig wedi troi ei chôt oedd mam, o deulu o Fedyddwyr amlwg yn ardal Garndolbenmaen, ond gydag amlygiad o barch mawr y byddai’n cyfeirio wastad at ‘Berson Llannor’, y diweddar Herbert Thomas. Ychydig dwi’n gofio amdano, cofio’r Ficerdy wrth fynd heibio’n ddyddiol ym mws yr ysgol, cofio bod ganddo ‘housekeeper’ gan ei fod yn ddi-briod a chofio’r ffaith ei fod yn gynghorydd. Dwi’n deall bellach mai un o gynghorwyr Plaid Cymru oedd Herbert Thomas a’r cyd-destun yna arweiniodd at barch ac edmygedd llawer un o’r ardal gan gynnwys mam.

Gwraig weddw yn ei phedwardegau cynnar oedd mam ac wrth ceisio adeiladu ei bywyd o’r newydd ac ambell rwystr yn ymddangos ar y ffordd, bu cyngor a chymorth unigolion fel ‘person Llannor’ yn oleuni ac yn fendith. Ac felly ar dudalennau *Perthyn* dwi am dalu teyrnged iddo a llawer un arall a wasanaethoedd eu cymunedau yn gydwybodol ac yn dawel, gyda’r ddealltwriaeth o bwysigrwydd y lleol a gyda hynny, ansawdd bywyd a bywydau.

Pam dechrau’r ychydig eiriau yma gyda sylwadau o’r fath? Am y ffaith bod y rhifyn hwn o *Perthyn* yn rhifyn sy’n ein hatgoffa bod mis Mawrth yn fis ein Nawddsant. Mis dathlu yr hyn sy’n ein gwneud yn genedl, yn iaith, diwylliant, etifeddiaeth, traddodiad ond ar yr un pryd yn agor ein llygaid i weld yr hyn sy’n digwydd o’n hamgylch.

Ar y 24ain o Chwefror fe fydd gweithgor yn enw Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro yn cyfarfod a hynny i bwrpas sef i drafod yr argyfwng sy'n ein hwynebu parthed tai fforddiadwy. Nid yn unig hynny ond hefyd ein defnydd o adeiladau di-anghenrhaidd. Gan ein bod yn gorff ac nid casgliad o eglwysi annibynnol, fydd yna ddim penderfyniadau dim ond awgrymiadau fydd yn mynd ymlaen i'r canol. Dwi'n gweddïo y bydd doethineb yn amlwg yn y gweithgor hwnnw ond ar yr un pryd y bydd yr awgrymiadau yn dwyn ffrwyth ac yn atebion adeiladol i'r hyn all fygwth sefydlogrwydd ein cymunedau.

Cymuned Llannor oedd ffocws yr hen Herbert Thomas a'i adnabyddiaeth o bobl yr ardal yn rhoi gwerth i ymholiad a phenderfyniad. Gyda'r holl ragrith ar hyn o bryd yn San Steffan, y perygl o golli golwg ar fywydau ac er pa mor syml y mae'n swnio, yn ganolog ac yn lleol onid nod unrhyw ffyrdd ar wleidyddiaeth yw gwasanaethu'r gymuned a rhoi bod i batrwm o fywyd sy'n gwarchod yr hyn sydd orau a'r sylw dadleuol yw y gall polisïau canolog effeithio ar hynny weithiau.

Beth sydd gan hyn i'w wneud â'r Eglwys ac felly chi a fi, pobl ffydd? Wel yn syml, popeth! Geiriau mawr yr Iesu oedd y geiriau –

‘Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl cyflawnder.’ (*Ioan Pennod 10, Adnod 10*)

Y cyflawnder yna sydd i'w ddeall yn nhermau yr ysbrydol a'r moesol ond hefyd ansawdd bywyd gan gynnwys y materol, economaidd ynghyd â'r diwylliannol. A dyna'r her i chi a fi, yn arbennig mewn dyddiau pryd mae'r Eglwys yn ymddangos mor ddiystyr a digynnig, i fod yng nghanol bywyd cymunedol, yn ei warchod ac yn ei gynnal ac i sôn am Iesu fel cyfrwng bywyd newydd sy'n rhoi bod i obaith ac i newid.

Dydd Gŵyl Dewi Hapus!

Eifion

Newyddion

Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mark Strong yn Ysbyty Bronglais ac at Shelagh Jones a fu yn yr ysbyty yn ystod y mis. Cofiw'n am bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal,

Croesawu aelod newydd

Ar fore Sul, Chwefror 6ed derbyniwyd Mrs Nia Mair Gruffudd Williams yn aelod yng Nghapel y Morfa gan ein Gweinidog Eifion Roberts. Estynnwyd croeso cynnes i Nia gan obeithio y bydd yn teimlo'n gartrefol yn ein plith.

Llongyfarchiadau - Geni

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dan ac Aranwen Brown ar enedigaeth eu merch, Magi Parry Brown – wyres i Eirlys a Robin Parry, nith i Rhiannon Salisbury a chyfnither i Llew.



- Priodas

Llongyfarchiadau i Lois Reynolds (merch Elaine ac Emyr Reynolds) a Dan Ponting ar eu priodas ym Mhlas Nanteos. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref yn Llanharan.



Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr John Evans, Maesceinion. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Ian, Andrew a Linda sydd wedi colli eu tad ac â'r wyrion a'r gor-wyrion – Tara, Natalie, Stuart a Theo Jax.

Cydymdeimlwn â Luned a Jonathan Williams ar farwolaeth tad Jonathan, sef Mr Mike Williams, Llangeitho – tad-cu Daniel, Gareth, Catrin, Owen ac Aaron.

Newyddion Ebeneser



Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau yn Ebeneser.


Cofiw'n yn arbennig am y rhai sydd mewn cartrefi preswyl neu yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac am eraill sydd wedi profi cyfnod o salwch a gofid yn ystod y misoedd diwethaf.

Yr ydym yn meddwl amdanoch ac yn anfon ein dymuniadau gorau atoch.

Dydd Gweddi'r Byd – Mawrth 4ydd


Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd eglwysi Aberystwyth a Llanbadarn Fawr ym mis Mehefin.

Byddwn yn defnyddio rhannau o'r gwasanaeth yn y Cyfarfod Gweddi a Choffi ar Fawrth 8fed am 11 o'r gloch ar Zoom.



Costau byw

Beth mae sŵn llythyrau yn dod drwy'r blwch llythyrau yn ei olygu i chi, cynnwrf efallai edrych ymlaen at ddarllen llythyr gan gyfaill? Diflastod ydi o i ambell un - llond llaw o sothach. Ond i ambell un bellach mae o'n ddychryn, mwy o filiau a rhywbeth i atgoffa pobl fod dyledion yn cynyddu. Yn ddiweddar mae'r ofn yna wedi cynyddu i nifer fawr o bobl wrth i filiau tanwydd godi yn aruthrol ac i gostau petrol a disel gyrraedd y prisiau uchaf erioed. Mae'r esgid yn gwasgu yn waeth nag y bu ers blynnyddoedd er bod miliynau ym Mhrydain wedi bod yn dibynnu ar fanciau bwyd cyn hyn.



Ond rhag i neb geisio golchi eu dwylo o'r cyfan, nid gwario ofer ydi'r achos yn amlach na pheidio ond amgylchiadau anodd ac anorfod. Mae'r rhesymau yn amrywiol - colli gwaith, costau annisgwyl, priodas yn torri, iechyd bregus, cyflog isel neu gredid cynhwysol yn gostwng a degau o resymau eraill. Canlyniad hynny ydi pobl yn ofni rhoi gwres yn y tŷ, yn byw heb brydau maethlon a gwyliau ysgol yn golygu nad oes gan y plant bryd bwyd am ddim amser cinio.

Mewn sefyllfa fel hon mae pregeth Eifion 20 Chwefror am fasnach deg yr un mor berthnasol yn ein hagwedd at bobl yn Aberystwyth ag ydi hi yng nghylch ffermwyr coffi mewn gwledydd tlawd. Dylem deimlo yn un gyda phobl ble bynnag y maent, a dylai ein ffydd fod yn amlwg yn ei gweithredoedd oherwydd fel y dywed Iago mae ffydd heb weithredoedd yn farw.



Tybed a ddaeth yn amser i Gapel y Morfa ac Ebeneser fod yn cydweithio gyda *Christians Against Poverty*? Elusen sydd yn cynnig hyfforddiant ac

adnoddau i eglwysi fod yn gymorth i bobl sydd mewn trafferthion. Mae gan yr elusen dair nod - trawsffurfio bywydau, tanio eglwysi a rhoi terfyn ar dlodi yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'n weledigaeth heriol ond yn un mae'r elusen yn credu y gellir ei chyflawni drwy nerth Duw.

Mae Megan Roberts o Dreuddyn yn ferch ifanc sydd yn gweithio i'r elusen yn eu swyddfa yn Bradford.



“Mae ganddo ni nifer o gynlluniau sydd yn helpu pobl,” meddai, “y cynllun uniongyrchol yw'r un i ddelio efo dyled, lle rydam ni'n helpu unigolion sydd mewn dyled gan greu cynllun efo nhw i ddelio gam wrth gam efo'u dyled. Mae'n gwbl gyfrinachol ac yn helpu pobl i weld fod na ffordd allan o dwll dyled, a chymorth ymarferol i'w gael.”

Ceir cynlluniau eraill sydd yn atal pobl rhag mynd i ddyled yn y lle cyntaf.

“Mae ganddo ni gwrs arian,” meddai Megan, “cwrs sydd yn awgrymu sut i greu cyllideb a rhwystro rhywun rhag mynd i ddyled -

CAP Money Course

A free, short course that makes managing your money simple.



budget. save. spend

er engraifft, defnyddio arian yn hytrach na cherdyn. Mae gweld faint o newid sydd gennych yn eich llaw yn help i wneud gwario arian yn rhywbeth ‘da chi yn reoli.’”

Law yn llaw efo'r cymorth ymarferol yma y mae cymorth ysbrydol ar gael hefyd gan mai drwy eglwysi y mae CAP yn gweithio.

“Rydyn ni yn barod i hyfforddi aelodau o eglwysi i fod yn gynghorwyr,” ychwanegodd Megan, “fel fod yr eglwys yn abl i helpu pobl eraill yn yr eglwys ac yn yr ardal. Mae’n genhadaeth ymarferol real iawn mewn cyfnod lle mae costau byw yn achosi poen a phryder real i gymaint o bobl.”

Tybed a yw’n bryd i Gapel y Morfa ac Ebeneser ystyried partneru gyda *Christians Against Poverty*? Mae eglwysi sydd wedi gwneud hynny yn tystio fod eu perthynas efo’u hardal wedi newid.



“Rydyn ni wedi bod o help i 60 o deuluoedd yn ein hardal,” meddai un gweinidog, “ac mae ryw 40 o bobl yn dweud fod ffydd wedi bod o gymorth iddynt.”

Heb weledigaeth fawr a breuddwydion mawr bodoli mae eglwys, gyda gweledigaeth fawr y daw nerth ac egni hefyd.

Blwyddyn Gap Coleg y Bala 2022 - 2023:



Canolfan Gristnogol
i Blant ac Ieuenctid

Wyt ti eisiau rhoi cyfnod i wasanaethu Duw yng Nghymru? Dyma gyfle cyffrous i ti weithio fel rhan o dim ar benwythnosau plant, ieuenctid a ieuenctid hyn Coleg y Bala. Fe fyddi hefyd yn cael gwasanaethu mewn clybiau plant a ieuenctid

wythnosol!

Trwy wasanaethu fe fydd cyfleoedd i ti brofi dy ddoniau ac i ddatblygu’n bersonol yn ogystal a sesiynnau mentora rheolaidd.

Os am fwy o wybodaeth pwysa ar y ddolen isod a dychwela'r ffurflen gofrestru mor fuan a phosibl. Os am sgwrs anffurfiol croeso i ti ffonio'r Coleg ar 01678520565 i drefnu siarad gyda Sian neu Owain. <http://www.colegybala.org/Cymraeg/blwyddyn-gap>

Emyn buddugol

Arwel Rocet Jones a enillodd y gystadleuaeth ysgrifennu emyn yn Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn ddiweddar a dyma'r emyn buddugol. Llongyfarchiadau Rocet.

Mae gan gariad lygaid
Sy'n chwilio'r palmant llwm,
Sy'n agor i weddio,
A gweld y beichiau trwm.
 Clywed, gweld a rhedeg
 Baeddu'n dwylo glân,
 Codi ein golygon
 A chodi'n llais yn gân.



Mae gan gariad glustiau
I glywed yn ddi-ffael
Yr ochenaid dawel
A'i hateb hi yn hael.
 Clywed, gweld a rhedeg ...

Mae gan gariad goesau
Sy'n mynnu mynd ar ras
At ochr yr anghenus
Drwy'r stormydd mwyaf cas.
 Clywed, gweld a rhedeg ...

Mae gan gariad ddwylo
Ag arnynt ambell graith,
Dwylo garw prysur
Sy'n baeddu wrth eu gwaith.
 Clywed, gweld a rhedeg
 Baeddu'n dwylo glân,
 Codi ein golygon
 A chodi'n llais yn gân.

Yr Ysgol Sul

Yn ystod mis Ionawr, cynhaliwyd gweithgareddau'r plant a'r ieuenctid yn rhithiol drwy gyfrwng Meithrin y Morfa a Zoom. Ers dechrau Chwefror rydym wedi cyfarfod wyneb yn wyneb – y plant dan 11 oed yn y Festri a'r ieuenctid yn ymgynnull am 11 o'r gloch y tu allan i'r capel cyn symud i leoliad arall.

Ar Chwefror 13eg cynhaliwyd Llanllanast Gŵyl Dewi - amrywiaeth o weithgareddau crefft, arddangosfa, stori a chân. Roedd yn gyfle i baratoi at y gwasanaeth teulu Gŵyl Dewi ar Zoom ar fore Sul Mawrth 6ed am 10 o'r gloch pryd y dangosir lluniau o'r gweithgareddau.

Byddwn yn ymuno â'r Parêd Gŵyl Dewi ar brynhawn Sadwrn, Mawrth 5ed gyda baner Yr Ysgol Sul.



Cyfarfodydd Gweddi a Choffi Bore Mawrth ar Zoom am 11 o'r gloch

Mewn un sesiwn yn ystod y mis cawsom gyfle i rannu ein hoff gerddi gan egluro'r rheswm am ein dewis ynghyd â chefnidir y cerddi. Cyflwynwyd cerddi gan Euros Bowen, T. Llew Jones, T. Gwynn Jones a Waldo Williams. Cawsom ein tywys i fannau gwahanol yn Nghymru ac ymuno â Nia Royles i gyd-lefaru y cwpled ar ddiwedd bob pennill o'r gerdd Tangnefeddwyr gan Waldo Williams. Dyma eiriau sydd yn berthnasol iawn i ni y dyddiau hyn:

Gwyn eu byd yr oes a'u clyw,

Dangnefeddwyr, plant i Dduw.

Fel rhan o'r thema *Helaetha Derfynau y Ddaear* gwahoddwyd Y Parch Charles Chua atom i sôn am ei waith ef a'i briod Molly Chua yn gweinidogaethu yn Abertawe ymhlith myfyrwyr sydd yn dod i'r Brifysgol o wledydd dros y môr. Daeth Charles a Molly i Abertawe yn 2002 trwy gynllun cyfnewid Gweinidogion CWM. Maent yn seilio eu gwaith ar Weinidogaeth Cyfeillgarwch ac yn agor drysau Capel Rhyddings Brynmill, sydd o dan eu gofal ar nosweithiau Gwener i estyn croeso a chyfeillgarwch uwchben pryd o fwyd. Mae rhannu neges Efengyl Iesu Grist trwy gyfrwng Astudiaeth Feiblaidd yn rhan bwysig o'r noson.



Yn parhau â'n thema, ymunodd y Parch Richard Brunt â ni o Lundain. Mae'n Weinidog ar eglwysi Cymraeg Llundain – Eglwys y Drindod Gogledd Llundain, Eglwys Unedig De Llundain a Seion Ealing Green.

Mae'r aelodau yn barod i deithio i'r gwasanaethau ac mae cymdeithas gynnes groesawgar ymhob un o'r eglwysi a chyfle iddynt i gyd ddod at ei gilydd ar achlysuron arbennig megis Gŵyl Dewi. Gwelwyd lluniau o blant Ysgol Sul Seion a'r Ysgol Feithrin Gymraeg yng Nghapel Leytonstone. Mae Miriam Watling (merch Huw a Nan Powell- Davies) wedi ei phenodi yn gynorthwy-ydd bugeiliol i weithio gyda'r plant a'r ieuencid ac mae'n cysylltu â'r Ysgolion Sul, Ysgol Gymraeg Llundain a'r Cylch Meithrin



Diolch i'r rhai sydd wedi dod atom i rannu eu profiad o weinidogaethu mewn ardaloedd eraill. Maent wedi cyfoethogi ein cyfarfodydd a diolch i Eifion am drefnu.

Perthyn

Sara a John oedd yn gyfrifol am y rhifyn hwn o Perthyn. Bydd y rhifyn nesaf ym mis Ebrill, anfonwch unrhyw ddeunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn 21 Mawrth i ebost Sara - sarahminyfron@hotmail.com




Beibl i Bawb

Sawl Beibl sydd yn eich tŷ chi? Rydw i'n siwr fod amrywiaeth – ambell Feibl teuluol, ambell hen gyfieithiad efo cyfeiriadau ymyl y ddalen, copi o Feibl 1988 efallai, neu gopi diwygiedig, *Beibl.net* neu ambell Destament Newydd a gyflwynwyd i aelod o'r teulu ar ryw achlysur neu'i gilydd. Wnawn ni ddim gofyn faint ohonyn nhw sydd yn cael ei agor yn gyson!



Mae'r Beibl yn y Gymraeg wedi chwarae rhan eithriadol o bwysig yn diogelu'r iaith ac yn rhoi lliw yn yr iaith. Mae na ambell Tomos fasa yn amau hynny, ond fe fyddwn yn mentro fy nwy hatling ac yn mynnu fel deddf y Mediaid a'r Persiaid fod hynny yn wir. Mae arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol yn cyhoeddi hynny hefyd.



Arddangosfa i ddathlu pedwar canmlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620, sef y testun safonol o'r Beibl yn Gymraeg am bron 400 mlynedd yw *Beibl i Bawb*. Mae'r arddangosfa arbennig hon, gan guradur gwadd, yr Athro E. Wyn James, yn edrych ar arwyddocâd a dylanwad aruthrol Beibl 1620 dros y canrifoedd - yn grefyddol, addysgiadol, cymdeithasol ac ieithyddol.

Y mae hefyd yn edrych ar fywyd a chyfraniad yr ysgolhaig mawr, Dr John Davies, Mallwyd, prif olygydd Beibl 1620, ac sy'n cynnwys eitemau nid yn unig o bwys mawr yn hanes Cymru ond sydd hefyd o arwyddocâd rhyngwladol ac yn eu plith gyfieithiadau o'r Beibl gan Gymry i ieithoedd eraill ar draws y byd.


Mae'r arddangosfa yn nodi rhai o gerrig milltir cyhoeddi'r Beibl yn Gymraeg yn eu plith 1588 – Beibl William Morgan, roedd wedi

diwygio'r cyfieithiad o'r Testament Newydd ac wedi ei anfon i'w argraffu, ond yn ystod pla mawr 1603 collodd yr argraffydd y llawysgrif!) 1620 - diwygiad John Davies, Mallwyd o gyfieithiad William Morgan, 1630 - cyhoeddi'r Beibl bach, sef Beibl addas i'r cartref yn hytrach na'r pulpud, ac 1770 - Beibl Peter Williams, y Beibl cyntaf i gael ei argraffu yng Nghymru.

Yn ôl Eryn White mewn darlith ar Feibl Peter Williams: “Yn dechnegol doedd Peter Williams ddim yn cyhoeddi'r Beibl, dyma'r tric mewn ffordd, roedd e'n cyhoeddi esboniad. Mi oedd hi wedi datblygu yn arfer yn Lloegr erbyn hyn i gyhoeddi esboniad ar y Beibl oedd yn cynnwys holl destun y Beibl. Felly roedd modd ei ddefnyddio fel Beibl ond yn dechnegol doedd o ddim yn torri ar draws y fath o fonopoli oedd gan argraffwyr brenhinol ar argraffu'r Beibl... ar yr un pryd roedd Peter Williams yn credu fod esboniad yn bwysig.”

Ac fe werthodd Beibl Peter Williams yn helaeth. “Roedd Beibl Peter Williams bron yn ddiwydiant, roedd argraffiadau gwahanol ar gael, rhai efo lluniau, eraill efo lluniau lliw, rhai efo clasp, eraill heb glasp – daeth y Beibl yn arwydd o berthyn i lwyth yr anghydfurfwyr. Roedd o bron yn addurn gyda'r aspidistra ym mharlwr anghydfurfiol y bedwaredd ganrif ar ddeg,” yn ôl Eryn White.

Beibl arall sydd yn cael sylw yn yr arddangosfa yw'r Beibl eiconig a gafodd Mary Jones gan Thomas Charles o'r Bala yn 1802. Mae stori Mary Jones ynghlwm wrth sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804, ac mae'r arddangosfa hon yn cynnig cyfle unigryw i weld nifer o eitemau sy'n gysylltiedig â Mary Jones gyda'i gilydd am y tro cyntaf erioed.





Yn ôl Wyn James mae'n rhyfedd ein bod ni heddiw yn gwneud môr a mynydd o hanes y cerdded o Lanfihangel i'r Bala yn droednoeth er mwyn prynu Beibl.

“Ond roedd llawer iawn o bobl yn cerdded yn droednoeth am filltiroedd lawer bryd hynny, does dim syndod yn hynny. Camp Mary Jones oedd y cynilo darbodus am flynyddoedd lawer er mwyn gallu prynu Beibl. Hanes merch dlawd yn cynilo am ei bod hi eisiau cael Beibl sydd wedi cydio yn nychmyg pobl drwy'r byd i gyd, mater bychan oedd y cerdded,” medd Wyn James.

Mae'r arddangosfa *Beibl i bawb* yn Hengwrt y Llyfrgell Genedlaethol tan yr 2 o Ebrill – mynnwch gyfle i'w gweld.

Dyddiadur Mawrth 2022

Gwasanaethau'r Sul (10 y bore)

6 Mawrth - Eifion (Capel a Zoom)

13 Mawrth - John Roberts (Zoom)

20 Mawrth - Eifion (Capel a Zoom)

27 Mawrth - Jeff Williams (Zoom)

Cylch gweddi a choffi: Bore Mawrth am 11 y.b. ar Zoom.

Ffydd a phaned: Prynghawn Gwener am 2 y.p. ar Zoom.

Hadau Gobaith.

Partneriaid dros gyfiawnder hinsawdd



Bob pum mlynedd bydd aelodau Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n cyfrannu at apêl Cymorth Cristnogol. Eleni yn y Gymanfa Gyffredinol yng Nghaernarfon lansiyd Hadau Gobaith, Apêl 2022. Rydym yn anelu at godi £250,000 i'r apêl – swm sy'n cyfateb i oddeutu £15 – £20 yr aelod. Lansiyd yr apêl ar y 10 o Chwefror.

Mae'r apêl yn amserol iawn. Mae'n dod ar gefn flwyddyn anodd i ni yma, ond i'n cymdogion ym manau tlotaf y byd, blwyddyn fwy heriol fyth.

Mae'r coronafeirws, diffyg dŵr glan, bwyd, trais a gwrthdaro wedi golygu pwysau mawr ar gymunedau. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae trychinebau hinsawdd wedi cyffwrdd ar bobol ym mhob rhan o'r byd. Llifogydd ym Mhakistan a De Swdan, stormydd llym yn yr Americas er enghraifft.


Effaith hirdymor her newid hinsawdd fydd ffocws yr apêl. Yn benodol, yr heriau sy'n wynebu rhai o wledydd tlotaf y byd. Byddwn yn cychwyn yr apel drwy ganolbwynito ar Kenya.

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio yn Kenya ers 1997. A trwy bartneriaid lleol yn cefnogi pobl sy'n mewn tlodi i ymateb ac i addasu i'r argyfwng hinsawdd.

Bydd mwy o adnoddau a gwybodaeth yn cael eu paratoi ac yn ymddangos ar wefan EBC wrth i ni nesáu at ddechrau'r apêl go iawn!

Y Gymdeithas

‘Oedd Pantycelyn yn Wyddonydd?’ oedd cwestiwn yr Athro Iwan Mours yr hanesydd gwyddonol i’r Gymdeithas ddiwedd Ionawr. Trwy gyfrwng gwaith ymchwil manwl a difyr cafwyd taith gan Iwan i brofi’r ddamcaniaeth honno. Edrychwyd ar ‘Golwg ar Deyrnas Crist’ oedd wedi’i seilio ar lyfrau Derham lle roedd gan Pantycelyn droednodiadau i drafod yr wyddoniaeth. Roedd gwyddoniaeth yn weithred grefyddol yn ystod y cyfnod hwn gan mai creu’r byd oedd y ffocws. Trafodwyd athroniaeth fecanyddol – y modd y gellir deall y cread fel peiriant anferth fel creu cloc. Yn ei ddiolchiadau, dywedodd Meurig Royles fod Pantycelyn wedi’i eni i wyddoniaeth llawer uwch a chafwyd y cyfan yn ei gyd-destun hanesyddol gan Iwan Morus. Noson i gnoi cil arni.



Ddechrau Chwefror cafwyd taith drwy Wasanaethau Gofal Ceredigion yng nghwmni Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (Gwasanaethau Arbenigol)

Cyngor Sir Ceredigion a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafwyd cyflwyniad i Lesiant, Cymorth a Gofal yn y sir. Fe’n cyflwynwyd i’r welediaeth sy’n bwysig i ddiogelu a chefnogi iechyd a lles pawb gan ddatblygu sgiliau am oes. Seilir y cyfan ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015). Drwy gyfrwng cyflwyniad gweledol, cafwyd dyfyniadau ac ystadegau i’n helpu i ddeall y gwananaethau a’r gefnogaeth sydd ar gael i ni, drigolion y sir. Gyda’r unigolyn yn y canol, ceir ymgynghori ar yr hyn sydd orau iddo/iddi ar y pryd y mae’r angen



arnynt. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn dwylo diogel a diolchwyd i Sian am ei chyflwyniad clir a chynhwysfawr.



Eleni i ddathlu Gŵyl Ddewi ar 21 Chwefror, cafwyd sgŵp yn y Gymdeithas! Croesawyd Tecwyn Ifan, a oedd newydd dderbyn gwobr am Gyfraniad Arbennig yng Ngwobrau'r Selar yr wythnos flaneorol. Drwy gyfrwng gair a chân – rhai

Dewi Sant, Waldo a Tecwyn Ifan cafwyd gobaith gwanwyn natur, y parodwydd i helpu a thynnu at ein gilydd a chrefydd cariad at Dduw ac at gymydog. Cafwyd cyfle i wrando ar Bytholwyrdd, Cofiwch Drwyweryn (gyda diolch i Bethan Bryn am fenthyl ei halaw Y Felan), Cannwyll ar y Stryd, Ffarwel i Stesion Strata, y Dref Wen gan orffen gyda Gweithred Gobaith. Noson i'w cofio ac addewid am gyfarfod wyneb yn wyneb i glywed y geiriau a'r gân yn dyfodol. Gweithredwyd y geiriau mewn modd crefyddol ac adloniannol.

Ar nos Lun, 7 Mawrth byddwn yn croesawu'r Parch Harri Parri atom i drafod ei gyfrol ddifyr ddiweddaraf – Heb eu Tebyg. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu bryd hynny.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r nosweithau sydd ar ôl yn rhaglen y Gymdeithas. Bydd Eifion yn anfon y linc Zoom allan cyn y cyfarfodydd.

Dyddiadau i'w cofio:

7 Mawrth – y Parch Harri Parri

28 Mawrth – Deian Creunant

Y Grawys:

Arglwydd, Tyrd

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hamheuon

ac yn baglu yn ein hofnau a'n hansicrwydd:

Arglwydd, tyrd i'n hargyhoeddi.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hunigrwydd,

heb neb yn gwmni i ni a neb i rannu'n gofidiau â nhw:

Arglwydd, tyrd i'n cysuro.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein hanobaith,

ein methiant yn ein llethu a'r dyfodol yn dywyll:

Arglwydd, tyrd i'n cyfarwyddo.

Pan fyddwn yn niffeithwch ein tlodi ysbrydol,
wedi colli gafael arnat ti ac yn methu gweddio:

Arglwydd, tyrd i'n bendithio.

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Cymer fy munudau*,

Gol. Aled Davies a Trefor Lewis

